# Ymdrin â Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol Gyda'n Gilydd

## Cynllun Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2026 -2029

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE


HEDDLU
POLICE
The Photo Expert

# Cynnwys

## Ein Cynllun


Rhagair y Prif Gwnstabl a’r Comisiynydd 4

Rhagair y y Comisiynydd Heddlu a Throseddu 5

Cyflwyniad 6

Beth yw ymddygiad gwrthgymdeithasol? 7


## Ein Cymunedau


**Adran 1: Cyd-destun lleol** 8

1.1 Blaenoriaethau Lleol 8

1.2 Cydweithio i Gyflawni ar gyfer De Cymru 13

1.3 Cysylltu â Chymunedau 15

1.4 Gwasanaeth sy’n Canolbwyntio ar y Dioddefwr 18

1.5 Craffu ac Atebolrwydd 20


## Ein Hymrwymiadau


**Adran 2: Datrys Problemau** 21

2.1 Datrys Problemau mewn Partneriaeth 21

2.2 Atal ac Ymyrryd yn Gynnar 23

2.3 Data, Tystiolaeth a Mesur Llwyddiant 24

**Adran 3: Cyfathrebu a Chynaliadwyedd** 25

3.1 Cyfathrebu Cynnydd 25

3.2 Cynaliadwyedd, Gwasanaeth a Pherfformiad 25









# Ein Cynllun

## Rhagair



Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn parhau i fod yn un o'r materion sy'n effeithio ar ba mor ddiogel y mae pobl yn teimlo yn eu cartrefi, eu strydoedd a'u cymunedau. Caiff ei ddisgrifio'n aml fel "lefel isel", ond i'r rhai sy'n cael profiad ohono, nid yw'r effaith yn un lefel isel. Gall ddifa hyder, niweidio llesiant, a thanseilio'r balchder sydd gan y bobl yn y lleoedd maent yn byw ac yn gweithio ynddynt. Fel Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru, rwy'n gwbl ymrwymedig i sicrhau y gallwn wneud popeth o fewn ein gallu i atal a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol a diogelu'r rhai sydd fwyaf agored i niwed.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi sut y byddwn yn cyflawni'r ymrwymiad hwnnw. Mae'n adlewyrchu egwyddorion ein Gwarant Plismona yn y Gymdogaeth ac mae'n gyson â Chynllun Cyflawni Heddlu De Cymru a Chynllun Trosedd a Chyfiawnder Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae uchelgais syml ond pwerus yn greiddiol iddi: **darparu plismona amlwg, hygyrch, sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr sy'n mynd i'r afael â'r materion sydd o'r pwys mwyaf i'n cymunedau ac yn darparu gwasanaeth cyson, ansawdd uchel ledled De Cymru.**

Gwyddom na allwn gyflawni hyn ar ein pen ein hunain. Yn aml iawn, mae achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gymhleth ac yn cael eu cydblethu â gwendidau ehangach, angen heb ei ddiwallu a ffactorau amgylcheddol. Felly, mae partneriaeth yn greiddiol i'n dull gweithredu, gan weithio gydag awdurdodau lleol, byrddau iechyd, darparwyr tai, gwasanaethau ieuenctid, y sector gwirfoddol a chymunedau eu hunain i gyflawni datrysiadau cynaliadwy, nid atebion byrdymor. Trwy blismona mewn ardaloedd problemus, datrys problemau â strwythur a thrwy ymyrryd yn gynnar, byddwn yn parhau i gyfuno gorfodaeth wedi'i thargedu gyda chamau gweithredu ataliol sy'n mynd i'r afael â gwraidd achosion niwed.

Yn hanfodol ddigon, caiff y cynllun hwn ei ffurfio gan leisiau'r cyhoedd. Trwy De Cymru yn Gwrando, ymgysylltu â'r gymuned, fforymau pobl ifanc a'r profiadau bywyd a rennir gan ddioddefwyr, rydym wedi meithrin dealltwriaeth fanwl o'r materion y mae pobl am i ni eu blaenoriaethu, a'r safonau gwasanaeth y maent yn eu disgwyl. Byddwn yn parhau i wrando, gweithredu ar adborth, a sicrhau bod pob adroddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ymateb cyson, cymesur, sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr.

Fy ymrwymiad i fel Prif Gwnstabl yw y bydd Heddlu De Cymru yn gweithio'n ddiflino i wireddu'r cynllun hwn. Bydd fy nghynnydd yn cael ei lywodraethu, ei graffu a'i fesur, a byddwn ni a'n partneriaid yn gyfrifol am y gwahaniaeth y mae'r gwaith hwn yn ei wneud ar strydoedd ein cymunedau. Gyda'n gilydd, byddwn yn meithrin cymdogaethau mwy diogel lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, yn hyderus ac yn dawel eu meddwl na fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei oddef.

**Jeremy Vaughan KPM**
Prif Gwnstabl



Fel Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru, mae fy mlaenoriaeth yn glir: sicrhau bod ein cymunedau yn ddiogel, yn gyfiawn ac yn lleoedd cynhwysol i fyw, gweithio a ffynnu ynddynt. Gweithio mewn partneriaeth agos â'r Prif Gwnstabl gan fod gan bob un ohonom gyfrifoldebau amlwg, ond rydym yn rhannu diben ar y cyd, gan ddiogelu ein cymunedau ac atal niwed.

Trwy fy ymweliadau 'Yn Eich Cymuned', caiff un mater ei godi dro ar ôl tro gan breswylwyr, busnesau a phobl ifanc ledled De Cymru: ymddygiad gwrthgymdeithasol. I'r rhai sy'n cael profiad ohono, nid yw ymddygiad gwrthgymdeithasol yn rhywbeth mân na dibwys . Pan fydd yn effeithio ar eich cartref, eich bywoliaeth neu eich ymdeimlad o ddiogelwch, mae o bwys mawr. Mae gwrando ar y pryderon hyn a gweithredu arnynt wrth wraidd fy Nghynllun Heddlu, Trosedd a Chyfiawnder.

Dros y tair blynedd diwethaf, rydym wedi defnyddio dull gweithredu gyda ffocws wedi'i arwain gan dystiolaeth i ymdrin ag ymddygiad gwrthgymdeithasol lle mae'n achosi'r niwed mwyaf. Trwy Ymgyrch Sentinel, gyda chymorth Cyllid Lle Mae Lefelau Uchel o ymddygiad gwrthgymdeithasol y Swyddfa Gartref, mae gan Heddlu De Cymru a'n partneriaid batrolau amlwg wedi'u targedu a gweithgarwch wedi'i gydlynu mewn nifer bach o leoliadau niwed uchel. Er bod yr ardaloedd problemus hyn ond yn cynrychioli rhan fach iawn o ardal ein heddlu, maent yn cyfrif am swm anghymesur o drais ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Drwy hoelio ein hymdrechion ar ble mae eu hangen fwyaf, rydym yn cyflawni fy ymrwymiad i blismona gweladwy, ymatebol sy'n mynd i'r afael â'r materion y mae'r cymunedau'n dweud wrthyf eu bod o'r pwys mwyaf iddynt.

Ond nid yw gorfodi'n ddigon ar ei ben ei hun.

Os ydym o ddifrif ynghylch lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn yr hirdymor, rhaid i ni hefyd ymdrin â gwraidd y broblem. Dyna pam ein bod yn buddsoddi mewn atal ac ymyrryd yn gynnar. Rydym yn cefnogi rhaglenni sy'n darparu cyfleoedd i bobl ifanc, yn cryfhau cadernid cymunedol ac yn ymdrin â'r ffactorau a all arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus. Trwy gysoni plismona mewn ardaloedd problemus â mentrau partneriaeth ehangach fel cymdogaethau Clirio, Dal, Adeiladu a Balchder Bro, rydym yn defnyddio dull gweithredu system gyfan, gydlynol, sy'n cydbwyso camau gweithredu ar unwaith gyda newid parhaol.

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn atgyfnerthu fy ymrwymiad i roi dioddefwyr yn gyntaf, cryfhau hyder y cyhoedd a sicrhau bod Plismona yn y Gymdogaeth yn parhau i fod yn weladwy ac yn hygyrch. Mae a wnelo â bod yn glir na fydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei anwybyddu a bod cymunedau ledled De Cymru yn haeddu teimlo'n ddiogel yn eu bywydau pob dydd.

Mae ein huchelgais yn syml: strydoedd mwy diogel, cymdogaethau cryfach a De Cymru lle gall pawb fyw heb ofn ac yn hyderus yn y gwasanaethau sy'n bodoli i'w diogelu.

**Emma Wools**
Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu De Cymru







# Cyflwyniad

Nod **Gwarant Plismona yn y Gymdogaeth** Llywodraeth y DU, a lansiwyd fel rhan o'r Genhadaeth Strydoedd Mwy Diogel, yw magu hyder y cyhoedd ym maes plismona a gwella capasiti a gallu'r gweithlu plismona yn y gymdogaeth i atal trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Un o elfennau canolog y Gwarant yw lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol, gyda swyddog arweiniol ymddygiad gwrthgymdeithasol a enwir ym mhob heddlu yng Nghymru a Lloegr a fydd yn gweithio gyda chymunedau a phartneriaid i ddatblygu Cynllun Gweithredu ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol a fydd yn nodi sut y byddant yn mynd i'r afael â'r materion y mae cymunedau a chanol trefi yn eu hwynebu gyda'i gilydd.

Mae'r Gwarant yn cefnogi ymrwymiad parhaus Heddlu De Cymru i ddarparu plismona gweladwy, hygyrch, cysylltiedig ac ymatebol i ymdrin â'r materion sydd o bwys i gymunedau ledled De Cymru, a adlewyrchwyd yng Nghynllun Cyflawni Heddlu De Cymru a Chynllun Trosedd a Chyfiawnder Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, Heddlu De Cymru.

Er gwaetha'r ffaith y cyfeirir ato'n aml fel lefel isel, mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn bla ar gymunedau a gall gael effaith ddofn a pharhaus ar ddioddefwyr a'u teuluoedd; gall goblygiadau'r ymddygiad fod yn arwyddocaol iawn, gan arwain at amrywiaeth o effeithiau emosiynol, ariannol a chymdeithasol negyddol.

Caiff ymddygiad gwrthgymdeithasol hefyd ei ystyried fel rhagflaenydd i droseddau amlwg eraill fel lladrata, trais, fandaliaeth a throseddau cyffuriau sy'n gwanhau teimladau o ddiogelwch ac yn dinistrio cymunedau.

Gall y fath ymddygiad gwrthgymdeithasol olygu nad yw dioddefwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi mwyach, gall niweidio a tharfu ar ansawdd bywyd y bobl yr effeithir arnynt a gall gael effaith negyddol ar fusnesau a hyder a llesiant y gymuned.

# Beth yw ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Diffinnir ymddygiad gwrthgymdeithasol yn **Neddf Trosedd ac Anhrefn 1998** fel:

> ***"Ffordd o ymddwyn sy'n achosi, neu'n debygol o achosi aflonyddwch, braw a thrallod i un person neu fwy nad yw'n byw ar yr un aelwyd â'r troseddwr."***

Fe'i diffinnir ymhellach o dan **Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014** fel:

**(a)** ymddygiad sydd wedi achosi, neu sy'n debygol o achosi aflonyddwch, braw neu drallod i unrhyw berson,

**(b)** ymddygiad a all achosi niwsans neu felltith i rywun mewn perthynas â defnydd rhywun o safle preswyl, neu

**(c)** ymddygiad a all achosi niwsans neu felltith cysylltiedig â thai i unrhyw berson.

Gwyddom y gall ymddygiad gwrthgymdeithasol ddigwydd ar sawl ffurf, a chaiff ei gategoreiddio'n draddodiadol yn dri math o ymddygiad gwrthgymdeithasol penodol a all gael effaith ddinistriol a thrawmatig ar unigolion a chymunedau. Gwyddom hefyd bod rhaid i ni gofnodi troseddau pan fyddant wedi digwydd yn gywir, yn ogystal â digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol, er mwyn cael darlun llawn o'r hyn sy'n digwydd yn ein cymunedau ac i sicrhau bod dioddefwyr yn cael y lefel iawn o gymorth.

## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Personol

Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw pan fydd person/personau yn targedu unigolyn neu grŵp penodol a gall amlygu ei hun mewn ymddygiadau fel bygwth ac aflonyddu.

## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Amgylcheddol

Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw hwn sy'n cael effaith andwyol ar yr amgylchedd ehangach, gan gynnwys lleoedd neu adeiladau cyhoeddus. Gall hyn ddigwydd yn nodweddiadol ar ffurf tipio anghyfreithlon, cardota ymosodol, baeddu gan gŵn a sbwriel cyffuriau wedi'i adael.

## Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Niwsans

Ymddygiad gwrthgymdeithasol yw hwn lle mae person/personau yn achosi dioddefaint neu felltith i'r gymuned ehangach. Gall hyn fod ar ffurf cam-drin geiriol, meddwdod, trais a melltith cerbydau.

Mae Heddlu De Cymru yn cymryd pob adroddiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol o ddifrif ac rydym yn ymrwymedig i leihau ei niwed a'i effaith ar ein cymunedau. Mae **Cynllun Cyflawni Heddlu De Cymru** a **Chynllun Trosedd a Chyfiawnder Heddlu De Cymru** yn nodi mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol â'i achosion sylfaenol, trwy ymyrryd ac atal yn gynnar fel y prif flaenoriaethau strategol.

Bydd ein Cynllun Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn archwilio'r cyd-destun lleol sydd wrth wraidd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ne Cymru ac yn rhoi dioddefwyr wrth wraidd ein dull gweithredu. Bydd y cynllun yn amlinellu sut byddwn yn atal ac yn lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy blismona wedi'i dargedu, gweladwy, ymgysylltu â'r gymuned a datrys problemau trwy drefniadau partneriaeth sefydledig.

Byddwn yn gweithio'n ddiflino yn ein hymdrechion ar y cyd i feithrin cymunedau cryfach, mwy diogel mewn trefi a dinasoedd ledled De Cymru a bydd yr ymrwymiadau a wnawn yn y cynllun hwn yn rhoi'r sylfaen y gallwn gyflawni newid parhaol ohoni.

# Ein Cymunedau

## Adran 1 | Cyd-destun lleol

### 1.1 | Blaenoriaethau Lleol

Mae Heddlu De Cymru yn cwmpasu ardal o 812 milltir sgwâr, sy'n cynrychioli 10% o ardal ddaearyddol Cymru a 42% o'r boblogaeth, gan ddarparu gwasanaeth plismona i 1.3 miliwn o bobl. Mae De Cymru yn rhanbarth amrywiol, gydag ardaloedd trefol, gwledig ac arfordirol a dwy ddinas fwyaf Cymru – Abertawe a'r brifddinas, Caerdydd. O fewn ffiniau'r heddlu mae 55 o'r 100 o'r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru.




Caiff yr heddlu ei rannu'n dair Uned Reoli Sylfaenol ddaearyddol ac mae'n ymestyn dros saith ardal Awdurdod Lleol, fel yr amlinellir yn y mapiau isod:

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerdydd
- Merthyr Tudful
- Castell-nedd Port Talbot
- Rhondda Cynon Taf
- Abertawe
- Bro Morgannwg

Wrth ddatblygu'r cynllun gweithredu hwn, rydym wedi ceisio meithrin dealltwriaeth gynhwysfawr o natur, amlygrwydd a chymhlethdod ymddygiad gwrthgymdeithasol ar draws De Cymru, ei ysgogwyr, yn ogystal â'i effaith ar ddioddefwyr a chymunedau.

Yn y flwyddyn a ddaeth i ben yn 2025, derbyniodd Heddlu De Cymru **18,020** o adroddiadau o ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda digwyddiadau wedi'u dosbarthu fel Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Niwsans fel y pryder cyhoeddus mwyaf cyffredin (74%) wedi'i ddilyn gan Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Personol (16%) ac Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Amgylcheddol (10%).

Mae'r graff isod yn dangos gostyngiad parhaus yn swm yr ymddygiad gwrthgymdeithasol a adroddwyd i Heddlu De Cymru ers 2022 a thrwy weithio mewn partneriaeth, rydym yn parhau i fod yn benderfynol o sicrhau bod y duedd am i lawr yn parhau, a hynny gyda chymorth yr ymrwymiadau sylfaenol rydym yn eu gwneud yn y cynllun gweithredu hwn.

## Digwyddiadau Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (ASB), yn ôl math a blwyddyn




Mae'r tabl nesaf yn cynrychioli'r cyfraddau uchaf o ymddygiad gwrthgymdeithasol a adroddwyd am bob 1000 o bobl ar lefel ward ym mhob un o'r saith ardal Awdurdod Lleol. Mae llawer o'r wardiau etholiadol a nodir isod yn destun mentrau datrys problemau'r bartneriaeth ar hyn o bryd gyda chymorth Cyllid Gweithredu Mannau Problemus y Swyddfa Gartref* sy'n dangos ymrwymiad Heddlu De Cymru a phartneriaid i rannu gwybodaeth ac adnoddau i gyflawni ymyriadau cynaliadwy, seiliedig ar dystiolaeth sy'n ymdrin â gwraidd achosion niwed.

**Mae Cronfa Gweithredu "Hot Spot" yn cael ei arwain gan Swyddfa Comisiynydd Heddlu a Throseddu De Cymru ac yn cael ei gweithredu yn Heddlu De Cymru o dan Opereiddiad Sentinel*



## Cyfradd Troseddau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (fesul 1,000 o'r boblogaeth ers 2022)

| Awdurdodau lleol | Ward | 2022 | 2023 | 2024 | 2025 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | | | | | |
| | Dwyrain Maesteg | 19.6 | 15.3 | 18.3 | 23.6 |
| | Yr Hengastell | 31.7 | 27.3 | 16.8 | 21.3 |
| | Caerau (Canolog) | 29.3 | 28.2 | 20.0 | 20.0 |
| **Caerdydd** | | | | | |
| | Butetown | 33.4 | 63.1 | 70.1 | 43.1 |
| | Cathays | 54.5 | 47.3 | 44.9 | 42.5 |
| | Adamstown | 42.0 | 41.6 | 37.3 | 35.4 |
| **Merthyr Tudful** | | | | | |
| | Tref | 41.4 | 36.0 | 40.4 | 31.6 |
| | Gurnos | 29.8 | 27.0 | 18.9 | 26.2 |
| | Cyfarthfa | 20.2 | 29.0 | 21.1 | 22.8 |
| **Castell-nedd Port Talbot** | | | | | |
| | Gogledd Castell-nedd | 63.9 | 56.0 | 65.0 | 58.1 |
| | Dwyrain Sandfields | 24.6 | 18.3 | 21.8 | 22.5 |
| | Dwyrain Castell-nedd | 23.7 | 21.6 | 24.3 | 18.0 |
| **Rhondda Cynon Taf** | | | | | |
| | Tref Pontypridd | 64.6 | 62.9 | 51.9 | 37.8 |
| | Dwyrain Aberdâr | 39.8 | 40.3 | 36.1 | 34.2 |
| | Porth | 18.9 | 23.6 | 25.4 | 24.9 |
| **Abertawe** | | | | | |
| | Y Castell | 86.1 | 113.2 | 78.8 | 76.6 |
| | Penderi | 29.5 | 21.6 | 18.9 | 18.2 |
| | Townhill | 22.6 | 20.0 | 16.4 | 17.5 |
| **Bro Morgannwg** | | | | | |
| | Castleland | 40.7 | 47.2 | 33.4 | 26.9 |
| | Buttrills | 28.8 | 31.8 | 24.9 | 19.2 |
| | Baruc | 28.9 | 27.6 | 16.9 | 18.0 |

Rydym yn cydnabod, er bod ymddygiad gwrthgymdeithasol a gofnodwyd yn parhau i gwympo flwyddyn ar ôl blwyddyn, dangosodd data o Arolwg Troseddu Cymru a Lloegr am y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2025 fod 35% o'r bobl wedi cael profiad o ymddygiad gwrthgymdeithasol neu wedi bod yn dyst iddo. Yn ogystal, mae'r Arolwg Cymunedol a gyflawnwyd trwy ein llwyfan ymgysylltu â'r cyhoedd, De Cymru yn Gwrando, yn dangos ei fod yn parhau i fod yn bryder sylweddol mewn cymunedau. Ers iddo gael ei lansio ym mis Mai 2023, mae dros **59,000** o arolygon ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi'u cwblhau gan aelodau'r cyhoedd a rannodd eu safbwyntiau gyda ni am amrywiaeth o bynciau, fel pryderon cymunedol, teimladau o ddiogelwch a syniadau a theimladau tuag at ddefnyddio grym a phwerau stopio a chwilio gan yr heddlu.

Rhwng mis Mai 2023 a mis Rhagfyr 2025, gofynnwyd i aelodau'r cyhoedd beth maen nhw'n ei ystyried yw'r prif faterion yn eu cymuned. Mae ymddygiad gwrthgymdeithasol wedi bod yn brif fater yn gyson ledled De Cymru, gyda 22,254 (37%) o ymatebwyr yn dweud hyn wrthym.

**Trosedd yng Nghymru a Lloegr – y Swyddfa Ystadegau Gwladol**

> "...mae'r Cynllun Gweithredu Ymddygiad Gwrth-gyhoeddus hwn yn rhoi'r dioddefwyr yn ganolog iddo..."



**Beth yw'r tri phrif fater sy'n effeithio arnoch yn eich cymuned a fyddai'n elwa o gydweithio rhwng yr Heddlu, Partneriaid ac aelodau'r gymuned i'w datrys?**




Caiff aelodau o'r cyhoedd sy'n nodi mai ymddygiad gwrthgymdeithasol yw'r pryder mwyaf yn yr Arolwg Cymunedol eu gwahodd i gymryd rhan mewn arolwg ymddygiad gwrthgymdeithasol dilynol awtomataidd i ddeall mwy am natur a graddfa'r ymddygiad sy'n effeithio arnynt yn eu hardal leol er mwyn gallu cymryd camau priodol. Fel y gellir gweld o'r siart isod, y defnydd anystyriol o gerbydau (e.e. goryrru, E-Symudedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a alluogir gan feiciau modur oddi ar y ffordd) yw'r pryder amlycaf, wedi'i ddilyn gan ymddygiad gwrthgymdeithasol amgylcheddol (sbwriel) a thystiolaeth o ddefnyddio cyffuriau.

Er y caiff ymddygiad gwrthgymdeithasol ei nodi gan gymunedau fel eu blaenoriaeth uchaf, rydym yn deall na chaiff yr amgyffrediad hwn ei adlewyrchu o reidrwydd yn nifer y digwyddiadau a adroddir i ni.




Fodd bynnag, rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn creu darlun cyflawn o ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n digwydd mewn cymunedau, gan gynnwys digwyddiadau y cawn wybod amdanynt trwy lwybrau ac asiantaethau eraill. Mae hyn yn hanfodol i ni a'n partneriaid gael sail dystiolaeth gynhwysfawr er mwyn creu darlun cywir o risg a gwendid, nodi'r mathau o fentrau sy'n ofynnol a ble i fuddsoddi adnoddau er mwyn lleihau ac atal ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rydym ar ddeall hefyd bod peidio â rhoi gwybod digon am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem ar lefel genedlaethol, gydag arolwg diweddar You Gov yn dangos nad yw o leiaf hanner dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn adrodd am ddigwyddiadau i'r heddlu neu i asiantaethau perthnasol eraill. Mae sawl rheswm dros hyn fel dioddefwyr o'r farn na ellir gwneud dim byd neu nad oedd y mater yn ddigon difrifol i fod yn deilwng o'i adrodd. Gyda'n partneriaid ledled De Cymru, rydym yn ymrwymedig i wella cyfathrebu a chael gwared ar unrhyw rwystrau i adrodd sy'n bodoli er mwyn i ni sicrhau bod pobl yn gwybod sut a ble i roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol a beth i'w ddisgwyl pan fyddant yn gwneud hynny, oherwydd gall pob adroddiad wir wneud gwahaniaeth.

## 1.2 | Cydweithio i Gyflawni ar gyfer De Cymru

O gofio tirwedd unigryw De Cymru, rydym yn gweithredu mewn partneriaeth ag ystod o bartneriaid a rhanddeiliaid allweddol i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol gyda'n gilydd a mynd i'r afael â'i achosion gwaelodol. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Awdurdodau Lleol
- Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
- Tri GIG a Bwrdd Iechyd Lleol
- Dau Wasanaeth Tân ac Achub
- Gwasanaethau Cyfiawnder Troseddol, gan gynnwys Prawf a Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuenctid
- Partneriaid Sector Gwirfoddol a Chymunedol




Er mwyn ysgogi camau gweithredu cyfunol, mae pum Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn gweithredu yn Ne Cymru, gan ymestyn dros saith ardal Awdurdod Lleol.

Rôl graidd y Partneriaethau yw cyflawni ymateb amlasiantaethol i fynd i'r afael â throsedd ac anhrefn ac ymddygiad gwrthgymdeithasol a'u hatal ar lefel leol, gan nodi materion lleol, a datblygu datrysiadau i fynd i'r afael â nhw. Cydnabyddir ar raddfa eang fod ymateb amlasiantaethol yn hollbwysig i fynd i'r afael â holl ysgogwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol, felly rhaid wrth ddull partneriaeth cydlynol, cyson ac amserol.

Ceir enghreifftiau cryf o Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol yn Ne Cymru sydd wedi datblygu trefniadau llywodraethu cadarn i sicrhau cysylltedd a goruchwylio'r gwaith o gyflawni yn erbyn blaenoriaethau strategol lleol, gan gynnwys is-grwpiau ymroddedig i ymateb i ymddygiad gwrthgymdeithasol, gydag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn flaenoriaeth strategol allweddol i bob partneriaeth yn ne Cymru.

Yn ogystal ag is-grwpiau strategol, mae Partneriaethau hefyd yn defnyddio grwpiau datrys problemau yn yr ardal, a arweinir gan Heddlu De Cymru, i nodi mannau problemus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol, rhannu gwybodaeth a datblygu ymyriadau wedi'u targedu. Mae'r gwaith o gyflawni mentrau'r Swyddfa Gartref fel Cyllid Gweithredu Mannau Problemus, Menter Haf Strydoedd Mwy Diogel a Gaeaf o Weithredu wedi'u hymgorffori mewn Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Grwpiau Datrys Problemau lleol, lle mae adroddiadau ar y prif bwyntiau rheolaidd yn cydnabod cysylltedd ar draws rhaglenni ac i sicrhau cysondeb, rhannu arfer da, gwneud y defnydd gorau o adnoddau a lleihau dyblygu ymdrech ar draws y dirwedd partneriaethau.

Bydd rôl Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn allweddol i roi'r Cynllun Gweithredu ar waith; bydd cynnydd ar gyflawni yn cael ei adrodd trwy Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol, yn ogystal â mecanweithiau llywodraethu a goruchwylio mewnol. O gofio rôl y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i wella cydweithio ar draws pob gwasanaeth cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru (Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), mae Partneriaethau Diogelwch Cymunedol yn rhoi gwybod yn ffurfiol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn uwchgyfeirio materion perthnasol i'w hystyried gan Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, gan ddarparu mecanwaith gorchwylio amlasiantaethol ychwanegol ar lefel uwch-arweinwyr.

> ...rydym wedi ymrwymo i ddarparu cyfleoedd i gymunedau deimlo eu bod wedi cael eu clywed...

Yn ogystal â'r Partneriaethau Diogelwch Cymunedol, mae Bwrdd Cyfiawnder Troseddol De Cymru yn fecanwaith allweddol sy'n darparu arweinyddiaeth a goruchwyliaeth strategol gyda'r Heddlu, Prawf, Cyfiawnder Ieuenctid a phartneriaid i gyflawni ymyriadau a gwasanaethau effeithiol gyda'r nod o leihau aildroseddu, gan gynnwys gwneud y defnydd gorau o Gynlluniau Gwneud Iawn â'r Gymuned.

## 1.3 | Cysylltu â Chymunedau

Mae plismona'n gofyn am gymorth a chydweithrediad gweithgar y cymunedau mae'n eu gwasanaethu i adennill eu hymddiriedaeth a'u cyfranogiad. Mae'n hanfodol ein bod yn cyfathrebu, yn ymgynghori ac yn ymgysylltu'n rheolaidd ac yn effeithiol â phob cymuned ledled De Cymru.

Yn sail i'n gweledigaeth i fod yn wasanaeth heddlu rhagorol, sy'n hygyrch, yn ddibynadwy ac y mae ein cymunedau yn ymddiried ynddo, mae ein gallu i gyflawni ymgysylltiad cymunedol wedi'i deilwra, gyda ffocws lleol a phwrpasol, ac yn hynny o beth, rydym yn ymrwymedig i roi cyfleoedd i gymunedau deimlo eu bod yn cael eu clywed a gweld sut mae eu hadborth yn ffurfio ac yn dylanwadu ar flaenoriaethau a gweithgareddau plismona lleol.

Mae gennym ymrwymiad cryf i ymgysylltu'n rhagweithiol ac i geisio lleisiau'r rhai na fyddai wedi ymgysylltu â ni fel arfer, gan gynnwys dioddefwyr a goroeswyr, y rhai â phrofiad bywyd a chymunedau amrywiol o ran ethnigrwydd.

Er mwyn sicrhau bod gan ein hunedau rheoli sylfaenol y wybodaeth sydd ei hangen i ymgysylltu'n effeithiol â'u cymunedau, mae cynllun ymgysylltu wedi'i deilwra wedi'i ddatblygu ar gyfer pob uned reoli sylfaenol, gan ddarparu dealltwriaeth strategol o'r data demograffig ac ethnigrwydd a ddelir yn ganolog sy'n berthnasol i'w hardal, lleoliadau o gymunedau prin y clywyd amdanynt neu gymunedau sy'n cael eu tangynrychioli, ynghyd â manylion rhanddeiliaid allweddol i'w cynnwys mewn ymgysylltiad i'r dyfodol. Gan ddefnyddio ystod o setiau data, mae pob cynllun ymgysylltu'n darparu trosolwg o gymunedau lle mae'r hyder mewn plismona neu deimladau o ddiogelwch yn isel ac y mae angen gweithgarwch plismona targedig arnynt. Defnyddir y cynlluniau i nodi unrhyw rwystrau i ymgysylltu, gyda chymorth pellach yn cael ei ddarparu gan ein Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant lle mae'r rhwystrau hynny wedi'u nodi.

Mae ein Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wedi datblygu rhaglen symudol Crefydd a Chred, sydd ar gael i bob cydweithiwr, sy'n ganllaw rhyngweithiol sy'n cwmpasu pob prif ffydd. Mae'n dwyn ynghyd wybodaeth ddiwylliannol a chrefyddol i helpu swyddogion yr heddlu a staff mewn amrywiaeth o rengoedd a rolau. Mae'r ap yn helpu i hysbysu ein swyddogion a'n staff ac yn darparu gwasanaeth gwybodus ac effeithiol i'r cymunedau amlddiwylliannol ac amrywiol sy'n creu De Cymru.

Mae ein dulliau ymgysylltu ac adborth yn cynnwys y canlynol:

### Swyddogion enedig, y gellir cysylltu â nhw

O dan Warant Heddlu Cymdogaethau, mae gan bob ardal (ward) swyddog cysylltadwy a enwir wedi'i restru ar wefannau Heddlu De Cymru a De Cymru Yn Gwrando, yn ogystal ag unrhyw ddigwyddiadau sydd i ddod y gall y cyhoedd eu mynychu i siarad â swyddog a rhestr o flaenoriaethau lleol sy'n berthnasol i'r ardal benodol.

## Digwyddiadau wyneb yn wyneb

Cyflwyno sesiynau ymgysylltu dros dro mewn archfarchnadoedd lleol, colegau, prifysgolion a digwyddiadau cymunedol, yn ogystal â chynnal presenoldeb mewn mannau cymunedol dibynadwy fel canolfannau cymunedol, lleoliadau ffydd, banciau bwyd a llyfrgelloedd. Gall y sesiynau ddigwydd ar ffurf cyfarfodydd PACT, cymorthfeydd, digwyddiadau "Paned gyda Phlismon' neu sesiynau briffio ar y stryd.

Yn ogystal â mentrau a arweinir gan yr heddlu, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu'n cynnal Diwrnodau Ymgysylltu "Yn Eich Cymuned" yn rheolaidd, gan gyfarfod â grwpiau cymunedol amrywiol, busnesau lleol a mentrau a arweinir gan y gymuned, a chysylltu â Thimau plismona yn y gymdogaeth lleol. Mae siarad â phobl leol yn galluogi'r Comisiynydd i adlewyrchu sylwadau a phrofiadau cymunedau lleol, sicrhau y caiff asiantaethau plismona a chyfiawnder troseddol eu dwyn i gyfrif am y gwasanaeth a ddarperir ganddynt, a hyrwyddo'r gwasanaethau a'r prosiectau cadarnhaol a gyflawnir yn ein cymunedau.

### Adborth Patrôl Plismona

Mae ein timau plismona yn y gymdogaeth yn ceisio ymgysylltu â phob cymuned yn rheolaidd, gan fynychu gwyliau diwylliannol, defnyddio gorsafoedd heddlu symudol a mynd i adeiladau crefyddol lleol i sicrhau ein bod yn parhau i fod yn weladwy, yn hygyrch ac yn ymatebol.

### Ar-lein

Mae hyn yn cynnwys adroddiadau, arolygon, De Cymru yn Gwrando a'r cyfryngau cymdeithasol. Mae cyflwyno ein system anfon negeseuon cymunedol **Hafan - De Cymru yn Gwrando** wedi golygu y gallwn ni nawr ymgysylltu â chynulleidfa hyd yn oed ehangach. Gellir cyfieithu negeseuon ac arolygon i fwy na 100 o ieithoedd gwahanol, gan sicrhau y gall pob aelod o'r gymuned dderbyn gwybodaeth berthnasol, wedi'i thargedu a rhannu eu barn ar blismona lleol. Defnyddir y system hefyd i gyflwyno prif arolwg yr heddlu, a ddefnyddir i goladu safbwyntiau'r preswylwyr ar ystod o bynciau gan gynnwys materion lleol, teimladau o ddiogelwch a chanfyddiadau o drosedd yn eu hardal.

Mae arolygon cymunedol yn ffordd annatod i ni sicrhau ein bod yn coladu amrywiaeth eang o farnau; fodd bynnag, mae'n bwysig nodi nad yw'r rhain yn disodli mathau traddodiadol o ymgysylltu ond yn ychwanegu atynt. Mae arolwg cyntaf yr heddlu yn defnyddio "Arolwg De Cymru yn Gwrando" a ddefnyddir i ddeall cymunedau a darparu cipolwg ar lefel yr heddlu, Uned Reoli Sylfaenol, sector lleol a ward. Defnyddir y data o'r arolwg hwn, ochr yn ochr â mathau eraill o ymgysylltu a llwyfannau fel **StreetSafe | Police.uk** i hysbysu blaenoriaethau lleol, patrolau wedi'u targedu, gwelliannau amgylcheddol, datrys problemau a gweithgareddau ymgysylltu.

## Ymgysylltu â phobl ifanc

Mae ymgysylltu â phobl ifanc yn effeithiol yn un o flaenoriaethau craidd eraill Plismona yn y Gymdogaeth ledled De Cymru. Mae ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar feithrin ymddiriedaeth, cynyddu gwelededd ac ymyriadau cynnar creadigol cadarnhaol sy'n helpu i atal niwed ac ymddygiad gwrthgymdeithasol. Drwy weithio'n agos gyda gweithwyr Ieuenctid, awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol, rydym yn sicrhau bod pobl ifanc ym mhob un o'n cymunedau'n cael cyfle i gael eu clywed, i gyfrannu at ddatrysiadau lleol a chael yr arweiniad sydd ei angen arnynt i gadw'n ddiogel, yn hyderus ac yn wydn.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu newydd gyhoeddi **Cynllun Troseddu a Chyfiawnder i Blant a Phobl Ifanc** cyntaf De Cymru, gan gydnabod bod profiadau plant a phobl ifanc o drosedd yn wahanol i brofiadau oedolion. Mae'r cynllun yn adlewyrchu lleisiau mwy na 5,000 o blant a phobl ifanc ym mhob rhan o dde Cymru.

Y neges anorchfygol gan blant a phobl ifanc drwy ddatblygiad y cynllun yw bod presenoldeb cynyddol a chyson yr heddlu yn bwysig iddynt, yn enwedig trwy ymweliadau ag ysgolion a bod plant a phobl ifanc eisiau i'r heddlu ymwneud mwy ag ysgolion yn gynnar, er mwyn helpu i gynyddu dealltwriaeth o oblygiadau gweithredoedd, hyrwyddo diogelwch ac egluro rôl yr heddlu y tu hwnt i orfodaeth.

Yn Ne Cymru, mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a'r Prif Gwnstabl wedi sicrhau parhad yn dilyn diwedd Rhaglen Ysgolion yr Heddlu i Gymru drwy sefydlu'r Rhaglen Ymgysylltu â Phobl Ifanc. Mae ein Swyddogion Ymgysylltu â Phobl Ifanc yn mynychu ysgolion, clybiau ieuenctid, gweithgareddau chwaraeon a digwyddiadau cymunedol yn rheolaidd i ddatblygu cydberthnasau ystyrlon, cynhyrchiol a chynnig amgylcheddau diogel a chyfarwydd.



Yn ogystal â'r Rhaglen Ymgysylltu â Phobl Ifanc, mae Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi datblygu'r Sgwrs Lleisiau Ifanc, menter ar y cyd gyda'r nod o annog pobl ifanc i rannu eu hadborth am faterion yn ymwneud â phlismona, troseddu a diogelwch cymunedol. Mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn gyfrifol am ymgysylltu â phobl ifanc yn eu cymunedau a chofnodi'r adborth a rannwyd ar y porth ymgysylltu. Caiff y materion lleol y mae angen mynd i'r afael â nhw eu gweithredu'n lleol a chaiff materion na ellir eu datrys yn lleol eu huwchgyfeirio a'u hymgorffori fel rhan o'r Fforwm Lleisiau Ifanc i'w hadolygu, lle bydd gan bobl ifanc gyfle i gyfarfod ag uwch arweinwyr i rannu eu barnau a thrafod datrysiadau.

Caiff y broses ymgysylltu â'r gymuned ei monitro trwy Olrheiniwr Ymgysylltiad yr heddlu. Mae hyn yn ein galluogi i ddeall pwy mae ein timau plismona lleol yn ymgysylltu â nhw, pryd a ble maent yn cyfarfod â'r cyhoedd a nodi beth sydd wedi gweithio, yn ogystal ag unrhyw fylchau y mae angen mynd i'r afael â nhw.

Byddwn yn parhau i gysylltu â'n cymunedau drwy ymgysylltiad cymunedol wedi'i dargedu, wedi'i deilwra'n lleol sy'n rhoi llais i'r cyhoedd sy'n cefnogi ac yn arwain ein cyd-weithredoedd wrth atal a lleihau troseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ledled De Cymru.



## 1.4 | Gwasanaeth sy'n Canolbwyntio ar y Dioddefwr

Mae ein Cynllun Cyflawni yn amlinellu sail ein hymrwymiad i ddarparu **gwasanaeth o'r radd flaenaf i ddioddefwyr** trwy ddarparu timau plismona amlwg, hygyrch i ymgymryd ag ymchwiliadau cymesur, ansawdd uchel, sy'n sicrhau y caiff dioddefwyr ei diogelu ac y rhoddir y wybodaeth ddiweddaraf iddynt am eu hachos neu ddigwyddiad yn unol â'u hanghenion.

Nid mater lefel isel yw ymddygiad gwrthgymdeithasol, ac rydym yn deall yr effaith niweidiol y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus, a'i niwed cysylltiedig, yn gallu ei gael ar unigolion, teuluoedd, busnesau a chymunedau. Rydym yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth plismona hygyrch, ymatebol sydd wedi'i lywio gan drawma, sy'n empathetig ac yn canolbwyntio ar ddioddefwyr a datrysiadau.

Mae dioddefwyr yn gadarn wrth wraidd y Cynllun Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol hwn ac mae'n nodi sut, drwy wrando ar brofiad dioddefwyr, annog pobl i adrodd, asesu risgiau a deall anghenion unigol, y bydd Heddlu De Cymru ac asiantaethau partner yn cydweithio i warchod, diogelu ac ymateb yn gyson ac yn effeithiol i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rydym yn ymrwymedig i lunio darlun cliriach o angen y dioddefwr i hysbysu Asesiad o Anghenion Dioddefwyr De Cymru, gan alluogi Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gefnogi a chomisiynu gwasanaethau ymatebol i ddioddefwyr.

Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn gymhleth ac yn amlwynebog a phrin mai cyfrifoldeb un asiantaeth yn unig ydyw i'w ddatrys. Gan weithio gyda phartneriaid, rydym yn benderfynol o ddarparu system ymateb sy'n gwarchod dioddefwyr ac yn meithrin cymunedau diogel a gwydn ledled De Cymru.

**Byddwn yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf i ddioddefwyr trwy:**

- Ddatblygu ein staff trwy gynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth am ymddygiad gwrthgymdeithasol fel rhan o'r Rhaglen Plismona yn y Gymdogaeth a darparu hyfforddiant gweithredol. Bydd hyn yn cynnwys datblygu dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar y dioddefwr, a dealltwriaeth gynhwysfawr o'r pwerau statudol a'r ddeddfwriaeth sydd ar gael. Bydd gan ein timau ddealltwriaeth well o wendid a'r niwed a all gymell ymddygiad gwrthgymdeithasol. Byddant yn fwy parod i ddarparu'r cymorth sydd ei angen ar ddioddefwyr, cymunedau a busnesau, gan gyflawni datrysiadau effeithiol a chynaliadwy.
- Nodi a chofnodi digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gywir ac yn gyson, gan ddefnyddio'r Model Penderfyniadau Cenedlaethol a phroses asesu THRIVE. Byddwn yn sicrhau y caiff risgiau a niwed eu cynnwys wrth wneud penderfyniadau a dyrannu adnoddau er mwyn ymateb yn effeithiol ac yn briodol i ddatrys y digwyddiad. Lle caiff swyddogion eu defnyddio, byddant yn dilyn canllawiau'r Safonau Gweithredu Cychwynnol yn gyson er mwyn sicrhau bod dioddefwyr a'r rhai sy'n rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ymateb o'r radd flaenaf, yn cael eu cyfeirio at gymorth ac yn cael y wybodaeth ddiweddaraf.
- Nodi a chofnodi dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol mynych ac agored i niwed yn gywir ac yn gyson ar systemau TG yr Heddlu er mwyn rhoi gwybod am yr ymateb priodol ac i helpu i nodi cyfleoedd diogelu perthnasol. Lle y caiff dioddefwyr mynych neu agored i niwed eu nodi, bydd ein timau'n ymgymryd ag asesiadau risg dilynol i archwilio ffactorau risg ymhellach a mabwysiadu dull sy'n canolbwyntio ar ddioddefwyr sy'n diogelu dioddefwyr. Bydd dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol mynych ac agored i niwed yn destun goruchwyliaeth gadarn drwy drefniadau llywodraethu mewnol a phartneriaeth.
- Sicrhau na chaiff digwyddiadau eu trin ar eu pen eu hunain, y caiff patrymau ymddygiad eu nodi, ac y caiff pob **trosedd** ei chofnodi'n gywir pan fydd wedi digwydd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn deall gwir darlun risg a gwendid ond hefyd er mwyn sicrhau y caiff dioddefwyr troseddau'r gwasanaeth y mae ganddynt yr hawl iddo o dan **God Ymarfer y Dioddefwyr** **Cod Dioddefwyr MoJ 2020** sy'n gosod cyfres o hawliau i ddioddefwyr a'r safonau gwasanaethau gofynnol y mae'n rhaid eu darparu i ddioddefwyr troseddau yng Nghymru a Lloegr.
- Rhoi llais i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ein harolwg Gwybodaeth i Ddioddefwyr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Mae hyn yn monitro ac yn mesur lefelau boddhad ymhlith y rhai sydd wedi rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae deall profiad y dioddefwr drwy ei daith ymddygiad gwrthgymdeithasol yn hanfodol i nodi meysydd y mae angen eu datblygu a nodi beth sydd wedi gweithio'n dda, y mae popeth yn hollbwysig i'n hymgais i wella'n gyson y gwasanaeth a ddarparwn i'r rhai sydd wedi cael profiad ac sydd wedi rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol i Heddlu De Cymru.
- Mae codi ymwybyddiaeth o **Adolygiad Achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** a'r defnydd ohono, yn cynnig diogelwch statudol pwysig i ddioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol parhaus neu gymhleth sy'n gofyn i asiantaethau lleol perthnasol (e.e. yr Heddlu, Darparwyr Tai Cymdeithasol, Byrddau Iechyd, Awdurdodau Lleol) i adolygu'r camau a gymerir gyda'n gilydd er mwyn ymdrin â'r ymddygiad a lle nad aed i'r afael ag ef yn ddigonol, ceisio cadarnhau lle y gallai camau pellach gael eu cymryd i ddatrys y materion ar y cyd. Rydym yn deall pwysigrwydd rhoi llais i ddioddefwyr yn y broses Adolygu Achosion a gyda'n partneriaid, byddwn yn ceisio rhoi llwyfan effeithiol lle y gallant fynegi'r effaith y cafodd ymddygiad gwrthgymdeithasol ar eu bywydau, er mwyn gallu ceisio datrysiad.

**Mae model THRIVE yn fframwaith a ddefnyddir gan rymoedd heddlu i asesu risg ac i wneud penderfyniadau wrth ymateb i alwadau am wasanaeth*

- Tynnu rhwystrau i adrodd, gan amlinellu sut, ble ac i bwy i roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol a beth i'w ddisgwyl wrth wneud hynny. Boed hynny'n Heddlu De Cymru neu'n asiantaethau mwy priodol eraill, ein nod yw sicrhau y caiff dioddefwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gael y cymorth cywir. Byddwn yn defnyddio ymgyrch **Adrodd i Adfer** i dynnu sylw at bwysigrwydd rhoi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ffurfiol er mwyn i heddlu a phartneriaid allu blaenoriaethu adnoddau ac ymdrechion lle mae'r angen mwyaf amdanynt. **Adrodd i Adfer: Mae pob adroddiad yn cyfrif | Heddlu De Cymru**
- Gwella'r ffordd rydym yn cefnogi dioddefwyr, sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed fel rhan o'r datrysiad a'u bod yn cael y cymorth cywir ar yr adeg gywir. Byddwn yn gwneud hyn drwy sicrhau bod llwybrau atgyfeirio effeithiol i gefnogi gwasanaethau er mwyn cefnogi dioddefwyr mewn ffordd holistaidd, gyda phob niwed yn gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, ochr yn ochr â'r angen a'r gwendidau unigol.

## 1.5 | Craffu ac Atebolrwydd

Mae craffu yn rhan hollbwysig o sicrhau bod Heddlu De Cymru yn cynnal safonau plismona ac yn darparu gwasanaethau plismona teg sy'n ymateb i'n cymunedau.

Mae proses graffu fewnol gadarn a chynhwysfawr yn Ne Cymru, sy'n cynnwys meysydd fel Defnyddio Grym a Stopio a Chwilio. Caiff craffu a goruchwyliaeth eu harwain gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn unol â'u rôl statudol;  mae hyn yn cynnwys gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys grwpiau cydlyniant cymunedol, er mwyn sicrhau ein bod mor agored a thryloyw â phosibl am ein dulliau plismona.

Mae paneli craffu a gynhaliwyd gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu a Heddlu De Cymru yn cynnwys lleisiau a phrofiadau dioddefwyr lle y bo'n briodol i nodi dysgu ac arfer da i ffurfio a gwella gwasanaethau a pherfformiad lle y bo'n ofynnol.

Croesewir proses graffu allanol drwy ein Grŵp Cynghori Annibynnol Strategol a gan aelodau o Grŵp Atebolrwydd a Dilysrwydd Plismona (PALG) Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu. Mae'r grwpiau hyn yn adolygu ffilmiau o gamerâu fideo wedi'u gwisgo ar y corff o achosion o Stopio a Chwilio ac achosion lle defnyddiwyd grym unwaith bob chwarter o leiaf. Caiff adborth o'r sesiynau hyn ei gasglu a gweithredir arno i wella ein safonau a sicrhau bod ein gwaith plismona yn deg a moesegol.

Mae ein tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn cynnal cyfarfodydd o'r Panel Craffu er mwyn i Aelodau o'r Cyhoedd eu mynychu. Mae ein Paneli Craffu yn galluogi aelodau o'r cyhoedd i ddwyn y Prif Gwnstabl a Swyddogion yr Heddlu i gyfrif drwy adolygu digwyddiadau go iawn o ddeunydd camerâu a wisgir ar gyrff y swyddogion a rhoi adborth ar y defnydd o bwerau, tactegau a gweithdrefnau plismona. Drwy ymgysylltu â'r cyhoedd drwy baneli craffu, rydym yn ceisio gwella dealltwriaeth, cyfreithlondeb, hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd mewn plismona.

Mae Grŵp Cynghori Annibynnol yr Heddlu yn cynnwys 28 o drigolion o bob rhan o Dde Cymru. Mae gan yr aelodau hyn rôl allweddol o ran gwella ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn yr heddlu. Mae Gwpiau Cynghori Annibynnol yn annibynnol ar yr heddlu ond yn gweithredu fel 'cyfeillion beirniadol' er mwyn helpu i herio ffyrdd confensiynol o feddwl yn yr Heddlu a chynnig safbwynt annibynnol ar faterion cyfredol a ffyrdd o feddwl yn y dyfodol.

Mae Grwpiau Cynghori Annibynnol yn gweithio fel partneriaid gwirioneddol gyda'r Heddlu er mwyn gwella'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, gan ganolbwyntio'n benodol ar amrywiaeth a'r nodweddion gwarchodedig. Caiff pob un o'r naw nodwedd warchodedig eu cynrychioli drwy ein Grŵp Cynghori Annibynnol presennol, a hynny ar lefel bersonol a phroffesiynol.

# Ein Hymrwymiadau

## Adran 2 | Datrys Problemau

### 2.1 | Datrys Problemau mewn Partneriaeth

Ein datganiad gweledigaeth datrys problemau:

**Bod yn wasanaeth heddlu rhagorol y mae ein cymunedau'n ymddiried ynddo trwy ddull partneriaeth, seiliedig ar dystiolaeth i nodi, dadansoddi ac ymateb yn gadarn i wraidd achosion problemau sy'n cael yr effaith fwyaf ar gymunedau, gyda ffocws craidd ar amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed.**

Mae Heddlu De Cymru wedi bod yn ymrwymedig i fodel plismona lleol sy'n seiliedig ar atal, ymyrryd ac amddiffyn er mwyn mynd i'r afael â throsedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol ers blynyddoedd lawer. Yn sail i bob un o'r haenau hyn mae dull datrys problemau sy'n canolbwyntio ar gadarnhau datrysiad effeithiol i broblemau gwaelodol sy'n effeithio ar ein cymunedau, yn hytrach na dim ond ymateb dro ar ôl tro i alwadau am wasanaeth.

Er mwyn llwyddo i ddatrys problemau, mae angen ei integreiddio i fusnes pob dydd a'i gefnogi gan brosesau a systemau syml sy'n golygu bod modd rhannu gwybodaeth a data yn effeithiol gyda phartneriaid. Mae'r Warant Plismona yn y Gymdogaeth yn disgwyl i heddluoedd ddatrys problemau o ansawdd uchel yn eu dull o dargedu troseddwyr cyson, cefnogi dioddefwyr mynych a nodi lleoliadau sy'n broblemus, yn ogystal ag unrhyw ffynonellau eraill lle mae galw mynych.

Mae **Plismona sy'n Canolbwyntio ar Broblemau** yn ffurfio dull allweddol ar gyfer ymdrin â blaenoriaethau lleol a nodwyd yn ein cymunedau. Mae datrys troseddau a phroblemau ymddygiad gwrthgymdeithasol lleol yn hanfodol oherwydd os na chânt eu datrys, byddant yn parhau i niweidio bywydau'r bobl sy'n byw yn ein cymunedau. Mae preswylwyr ac eraill yn debygol o deimlo'n fwyfwy anniogel ac mae ganddynt farn negyddol am yr heddlu a'u hasiantaethau partner lleol.

Yn Heddlu De Cymru, ymgorfforir methodoleg datrys problemau **SARA** (Sganio, Dadansoddi, Ymateb, Asesu), fel canllaw i ddatrys problemau, gan alluogi timau a phartneriaid plismona i ystyried y canlynol:

- Beth yw'r broblem?
- Pam mae'n digwydd?
- Pryd mae'n digwydd?
- Ble mae'n digwydd?
- Sut gellir ymdrin â'r broblem ar y cyd?
- Beth sydd wedi gweithio mewn mannau eraill ar gyfer mater tebygol?
- Sut beth yw llwyddiant?

"...byddwn yn ddi-baid yn ein ymdrechion cydweithredol i adeiladu cymunedau cryfach, mwy diogel..."



Mae ein dull datrys problemau SARA wedi'i strwythuro yn galluogi ein swyddogion i feddu ar ddealltwriaeth drwyadl o raddfa a natur y problemau ac mae'n helpu i gyflawni ymatebion amlasiantaethol effeithiol. Mae manteision ein dull hefyd yn cynnwys y canlynol:

- Dull cyson o ddatrys problemau ym mhob rhan o'r Heddlu
- Y gallu i gydlynu gweithgarwch datrys problemau yn well rhwng partneriaid
- Cydnabod pwysigrwydd datrys problemau yn yr holl feysydd plismona
- Nodi a rhannu arfer effeithiol
- Proses syml heb fawr ddim biwrocratiaeth a chymorth ar gyfer syniadau arloesol

Mae gan ein strategaeth plismona yn y gymdogaeth dri amcan datrys problemau:

1. **Byddwn yn defnyddio model datrys problemau SARA er mwyn nodi a deall gwraidd achosion problemau cymunedol (neu amodau sy'n ei alluogi i barhau) i ddatblygu datrysiadau effeithiol. Bydd ein hymdrechion datrys problemau yn canolbwyntio ar faterion rheolaidd sy'n achosi niwed sylweddol i gymunedau lle gall ymdrechion partneriaeth wedi'u targedu fod ar eu mwyaf effeithiol.**
2. **Byddwn yn defnyddio model datrys problemau seiliedig ar le gan ddefnyddio dadansoddi data a chuddwybodaeth i nodi troseddau a meysydd blaenoriaeth ymddygiad gwrthgymdeithasol sy'n galluogi patrolau wedi'u targedu, mwy o weledd ac ymgysylltiad rhagweithiol â chymunedau lleol.**
3. **Byddwn yn cydweithio â phobl, cymunedau a phartneriaid lleol i ddatrys problemau gyda'n gilydd.**

Mae'r dystiolaeth orau sydd gennym yn dweud wrthym mai datrys problemau yw'r ffordd o wella plismona, gwneud y defnydd gorau o adnoddau a gwasanaethu'r cyhoedd yn effeithiol. Bydd yr amcanion uchod yn galluogi Heddlu De Cymru i ysgogi newid gweithredol a diwylliannol drwy ddarparu'r adnoddau, y wybodaeth a'r cymorth angenrheidiol i swyddogion roi strategaethau datrys problemau effeithiol ar waith, gan leihau galw yn y pen draw, gwella'r ffordd o ddarparu gwasanaethau ac yn bwysicaf oll, gwella canlyniadau ar gyfer cymunedau.

## 2.2 | Atal ac Ymyrryd yn Gynnar

Rydym yn cydnabod nad yw gorfodaeth a gwelededd yn ddigon i gyflawni gostyngiadau cynaliadwy mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol ar hyn o bryd. Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol fod yn symptom o wendid ehangach ac angen heb ei ddiwallu yn aml iawn. Gall fod yn gysylltiedig â dylanwad gan gymheiriaid, cam-fanteisio, defnyddio sylweddau, gwrthdaro rhwng teuluoedd neu ffactorau amgylcheddol mewn cymunedau. Felly, mae angen dull cytbwys, sy'n cyfuno plismona amlwg gydag atal ac ymyrryd yn gynnar.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae Heddlu De Cymru a Chomisiynydd yr Heddlu a Throseddu wedi gweithio'n agos gyda phartneriaid i gyflawni Rhaglen Cyllid Gweithredu Mannau Problemus y Swyddfa Gartref yn lleol drwy Ymgyrch Sentinel.

Ymgyrch Sentinel yw dull gweithredu strwythuredig, wedi'i arwain gan dystiolaeth yr heddlu i nodi ac ymdrin â lleoliadau sy'n profi lefelau trosedd ac ymddygiad gwrthgymdeithasol dwys. Gan ddefnyddio dadansoddi lefel microrawdiau manwl, mae'r heddlu wedi gallu nodi clystyrau problemus gyda'r lefelau uchaf o niwed, lle y gall plismona gweladwy, wedi'i dargedu ac ymyrraeth gan bartneriaid gael yr effaith fwyaf.

Mae Cyllid Gweithredu Mannau Problemus wedi galluogi gweithgarwch patrôl Heddlu a Phartneriaeth amlwg yn y mannau dynodedig hyn, gan gynnwys lleoliadau goramser a ariennir yn ystod mentrau cenedlaethol fel Menter Haf Strydoedd Mwy Diogel a Gaeaf o Weithredu. Mae'r lleoliadau hyn wedi cynyddu gwelededd, wedi tarfu ar ymddygiad niweidiol, wedi rhoi sicrwydd i gymunedau ac wedi cefnogi gorfodaeth wedi'i thargedu, ochr yn ochr â gweithgarwch atal dan arweiniad y bartneriaeth sy'n anelu at ymdrin ag achosion gwaelodol, gan gynnwys ffactorau amgylcheddol, erledigaeth fynych, gwendid ymhlith pobl ifanc a throseddu parhaus.

Mae Uned Atal a Lleihau Trais (UALIT) De Cymru yn cefnogi'r dull ataliol hwn drwy gomisiynu ymyriadau wedi'u targedu, wedi'u llywio gan dystiolaeth. Mae'r rhaglenni hyn wedi'u dylunio i ymdrin â'r ffactorau risg gwaelodol sy'n gysylltiedig â thrais difrifol ac ymddygiad gwrthgymdeithasol, gan helpu i atal uwchgyfeirio a lleihau galw mynych. Mae gweithgarwch a gomisiynwyd yn cynnwys mentrau ymgysylltu â phobl ifanc, addysg mewn ysgolion, cymorth mentora a gwaith atal trais mewn ysbytai. Er enghraifft, mae'r gwaith o ddarparu rhaglen Fearless Crimestoppers mewn partneriaeth yn darparu addysg i bobl ifanc ar gamfanteisio, troseddu a'r risgiau sy'n gysylltiedig â thrais, ochr yn ochr â mynediad i lwybrau adrodd diogel a dienw. Trwy rymuso pobl ifanc i wneud dewisiadau ar sail gwybodaeth a cheisio cymorth lle y bo'n ofynnol, mae'r ymyriadau hynny'n cyfrannu at leihau ymddygiadau a all amlygu eu hunain fel ymddygiad gwrthgymdeithasol yn ein cymunedau fel arall.

Mae'r UALIT yn gweithio'n agos gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol, timau plismona yn y gymdogaeth ac awdurdodau lleol i sicrhau bod gweithgareddau atal a gomisiynwyd yn ychwanegu at blismona lleoliadau problemus a chynlluniau datrys problemau â strwythur. Lle y caiff mannau lle y mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem eu nodi, ystyrir ymyriadau ataliol ochr yn ochr â mesurau gorfodi ac amgylcheddol i sicrhau ymateb cydlynol a chymesur yn unol â safleoedd Clirio, Dal, Adeiladu a chymdogaethau Balchder Bro Llywodraeth y DU.

Drwy integreiddio patrolau amlwg, datrys problemau â strwythur a gweithgarwch ymyrryd yn gynnar, bydd Heddlu De Cymru a phartneriaid yn parhau i ymdrin ag effaith ddi-oed ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r ffactorau gwaelodol sy'n ei alluogi i barhau.



> ...byddwn yn gweithio'n gydweithredol gyda phobl leol, cymunedau a phartneriaid i ddatrys problemau gyda'n gilydd...

## 2.3 | Data, Tystiolaeth a Mesur Llwyddiant

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn fewnol drwy lefel Uned Reoli Sylfaenol a chyfarfodydd perfformiad plismona yn y gymdogaeth yr heddlu ac yn allanol trwy drefniadau llywodraethu Diogelwch Cymunedol.

Bydd data'n cael eu hadolygu'n fewnol bob mis sy'n cynnwys:

- Swm y Digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Lefel y risg
- Datrys Problemau
- Troseddau a gofnodwyd o Ddigwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Hygrededd data mewn perthynas â Digwyddiadau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol
- Blaenoriaethau'r Gymdogaeth
- Dioddefwyr Mynych
- Ad-droseddwyr
- Defnyddio grymoedd Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlismona 2014
- Cofnodi digwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau cysylltiedig yn gywir

Er mwyn cefnogi goruchwylwyr i reoli a gwella'r data hyn, mae gennym ddangosfwrdd rhyngweithiol a fydd yn rhoi'r wybodaeth a'r adnoddau iddynt helpu i nodi risgiau, gwendid a mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae'r dangosfwrdd yn cynnwys mapiau gwres i helpu i nodi mannau lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol yn broblem, manylion ymyriadau ac yn nodi galwadau ymddygiad gwrthgymdeithasol diweddar i gefnogi timau lleol sy'n gwneud galwadau i'r rhai sydd wedi dioddef neu wedi bod yn dyst i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

# Adran 3 | Cyfathrebu a Chynaliadwyedd

## 3.1 | Cyfathrebu Cynnydd

Mae 11 ymrwymiad sylfaenol yn sail i'r Cynllun Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol hwn sy'n nodi'n glir sut y bydd Heddlu De Cymru, sy'n gweithio'n agos gyda phartneriaid, preswylwyr a busnesau, yn creu cymunedau mwy diogel, cryfach lle y gall unigolion fyw, gweithio a ffynnu heb ofni y bydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn effeithio ar eu bywydau pob dydd.

Bydd y cynllun a'r ymrwymiadau cefnogol yn cael eu symud ymlaen trwy gynllun cyflawni tactegol a fydd yn destun arweinyddiaeth, goruchwyliaeth a llywodraethiant gan y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol ac uwch-swyddogion yr heddlu, gyda Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn craffu'n annibynnol i sicrhau atebolrwydd am gynnydd.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ac yn deall mai'r lle y bydd y cynnydd wir yn cael ei fesur fydd ar strydoedd ein cymunedau ac yn ystod parhad y cynllun hwn, byddwn yn sicrhau ein bod yn darparu diweddariadau chwe-misol rheolaidd ar ein gweithgareddau wrth gyflawni ei amcanion. Yn ogystal â'r ymrwymiad hwn, byddwn yn gwneud y canlynol:

- Defnyddio pob cyfrwng cymdeithasol sydd ar gael i dynnu sylw at weithgareddau'r heddlu i fynd i'r afael â throseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn cymdogaethau.
- Annog y cyhoedd i roi gwybod am ddigwyddiadau ymddygiad gwrthgymdeithasol trwy ymgyrchoedd fel Ymgyrch Pinpoint
- Rhoi cyhoeddusrwydd i flaenoriaethau plismona a rhoi adborth ar y camau a gymerwyd i ddefnyddio llwyfan De Cymru yn Gwrando
- Tynnu sylw at y defnydd o bwerau, fel Gorchmynion Ymddygiad Troseddol, ar unigolion sy'n gyfrifol am gyflawni ymddygiad gwrthgymdeithasol

Mae arweinwyr cyfathrebu wedi'u penodi yn Heddlu De Cymru ac i dîm Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu i gyd-arwain dull cydweithredol o wella cyfleoedd i gyfathrebu ac ymgysylltu.

Byddwn yn adeiladu ar yr ymateb cadarnhaol i Ymgyrch Prosiect Pinpoint Heddlu De Cymru i godi ymwybyddiaeth o sut i roi gwybod am ymddygiad gwrthgymdeithasol a'r gweithgareddau wedi'u targedu sy'n cael eu cyflawni gan yr heddlu a phartneriaid ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn ardaloedd problemus er mwyn ymateb i'r ymddygiad gwrthgymdeithasol hwnnw.

## 3.2 | Cynaliadwyedd, Gwasanaeth a Pherfformiad

Yn unol â'r cyfarwyddyd cenedlaethol o dan y Gwarant Plismona yn y Gymdogaeth, bydd Heddlu De Cymru bellach yn ymgorffori methodoleg Ymgyrch Sentinel fel busnes yn ôl yr arfer. Bydd lleoliadau problemus yn parhau i gael eu nodi a'u hadnewyddu trwy ddadansoddiad lefel microrawdiau, gyda ffiniau problemus wedi'u mapio.

Bydd llywodraethiant a sicrwydd yn cael eu cynnal gyda Grwpiau Datrys Problemau lleol yn sylfaen iddynt, ac mae perfformiad yr Uned Reoli Sylfaenol a llywodraethiant partneriaeth yn cefnogi llwybrau uwchgyfeirio clir lle y bo'n ofynnol. Mae hyn yn sicrhau bod plismona problemus yn parhau i fod yn elfen graidd fesuradwy, atebol a arweinir gan bartneriaeth o blismona yn y gymdogaeth ledled De Cymru.

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn ymrwymedig i gefnogi'r dull prif-ffrydio hwn drwy ddatblygu cronfa cyllid plismona mewn mannau problemus ymroddedig dros y ddwy flynedd nesaf. Bydd hyn yn galluogi'r heddlu, awdurdodau lleol a phartneriaid sector gwirfoddol a thrydydd sector i gynnig am ymyriadau wedi'u targedu sy'n cefnogi gwaith datrys problemau seiliedig ar dystiolaeth mewn lleoliadau niwed uchel, gan roi amser i drawsnewid er mwyn cynnal gweithgareddau busnes yn ôl yr arfer.

Bydd y dull hwn yn cysoni gweithgareddau plismona mewn mannau problemus gyda mentrau seiliedig ar le eraill, gan gynnwys safleoedd Clirio, Dal, Adeiladu, cymdogaethau Balchder Bro a gweithgareddau trais difrifol wedi'u targedu. Trwy ganoli patrolau, gorfodaeth, atal a buddsoddiad cymunedol amlwg yn yr un lleoliadau, byddwn yn gwneud y mwyaf o effaith, yn osgoi dyblygu ac yn cyflawni ymateb lle cyfan cydlynol i ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Trwy Ymgyrch Sentinel a'i drawsnewid i fusnes yn ôl yr arfer, bydd Heddlu De Cymru yn parhau i blismona yn y gymdogaeth dan arweiniad cudd-wybodaeth, amlwg sy'n ymdrin â'r materion pwysicaf i'n cymunedau.

“...rydym wedi ymrwymo i leihau niwed ac i leihau effaith Ymddygiad Gelyniaethus yn ein cymunedau...”



# Ein Cynllun • Ein Cymunedau • Ein Hymrwymiadau

## Byddwn yn Weladwy Ac yn Hygyrch

Byddwn yn weladwy, yn hygyrch, ac yn ymatebol yn y meysydd lle mae arnoch angen ni – gyda ffocws wedi'i wella ar ein lleoliadau canol tref a dinas.

## Darparu Goblygiadau Ystyrlon

Byddwn yn defnyddio holl bwerau statudol a opsiynau sydd ar gael i'r heddlu a phartneriaid i fynd i'r afael â Ymddygiad gwrthgymdeithasol yn frwd a sicrhau bod y sawl sy'n cymryd rhan dro ar ôl tro yn atebol am eu gweithredoedd.

## Datrys Problemau mewn Partneriaeth

Byddwn yn cydweithio â rhanddeiliaid allweddol a chymunedau i ddarparu ymateb cynhwysfawr a chryf i leihau Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gan ddarparu atebion effeithiol a chynaliadwy mewn partneriaeth.

## Adnabod a Chefnogi

Byddwn yn cydnabod, yn diogelu ac yn cefnogi dioddefwyr ailadroddus, bregus ac o risg uchel o Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, gan sicrhau eu bod wedi'u diogelu rhag niwed.

## Defnyddio Dull Canolog i'r Dioddefwr

Byddwn yn rhoi dioddefwyr yn ganol ein hymagwedd, gan eu pweru fel bod eu lleisiau yn cael eu clywed a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu. Byddwn yn codi ymwybyddiaeth o'r hawl gan ddioddefwyr sydd wedi dioddef dro ar ôl tro i gael mynediad at Adolygiad Achos Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, er mwyn cyflawni canlyniadau positif amlasiantaethol i ddioddefwyr.

## Hyrwyddo Adrodd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

Byddwn yn cyfathrebu'n glir opsiynau riportio i holl ein cymunedau, gan dynnu rhwystrau i riportio fel y gellir cymryd camau priodol.

## Ymyrraeth Gynnar a Thrhwyllo

Byddwn yn ymgysylltu â'r rhai sydd mewn perygl o droseddu i fanteisio'n llawn ar y cyfleoedd i ymyrraeth gynnar a threchu i leihau niwed. Byddwn yn cydweithio i ddeall achosion sylfaenol ymddygiad gan ddefnyddio dull gwybodus am drais.

## Ymgysylltu, Gwrando a Ymateb

Byddwn yn ceisio deall natur a dylanwad Ymddygiad Gwrthgymdeithasol trwy ymgysylltiad targedig. Byddwn yn cadw cymunedau wedi'u diweddaru ar ein gweithredu cydlynol ac yn creu cyfleoedd i adborth lywio ein gwasanaeth.

## Byddwn yn defnyddio Dull Cyfeiriedig gan Dystiolaeth

Byddwn yn defnyddio ac yn rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid allweddol i gyflawni dulliau targededig sy'n seiliedig ar dystiolaeth i fynd i'r afael â Ymddygiad Gwaradwadol.

## Technoleg a Arloesedd

Byddwn yn meithrin diwylliant o arloesedd ac yn defnyddio'r holl dechnoleg sydd ar gael i greu capasiti a gwella gallu i fwyafhau ein heffeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ymdrin â Ymddygiad Gwrthgymdeithasol.

## Gwasanaeth a Perfformiad

Byddwn yn parhau i fuddsoddi a datblygu sgiliau ein timau Heddlu trwy hyfforddiant a ymarfer a rhannu gwybodaeth gyda'n partneriaid. Byddwn yn adolygu prosesau a chofnodi i ddarparu gwasanaeth dosbarth cyntaf i gymunedau yn gyson.

Dweud eich dweud

# Ymdrin â Ymddygiad Gwrth-Gymdeithasol Gyda'n Gilydd

## Cynllun Gweithredu Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2026 -2029

HEDDLU DE CYMRU
SOUTH WALES POLICE